



Cerddorfa Genedlaethol Ieuenctid Prydain Fawr



Heledd yw'r drydedd o'r chwith gydag aelodau eraill yr adran offer taro - Tom, Verity, Elliott, Matilda, Max, a Harry Lovell-Jones, gyda'r tiwtor Ian Wright.

Llongyfarchiadau i Heledd Gwynant ar gael ei dewis i fod yn aelod o Gerddorfa Genedlaethol Ieuenctid Prydain... Darllenwch y stori lawn ar dudalen 2

Cerddorfa Genedlaethol Ieuenctid Prydain Fawr

O'r dudalen flaen

Llongyfarchiadau i Heledd Gwynant ar gael ei dewis i fod yn aelod o Gerddorfa Genedlaethol Ieuenctid Prydain. Yn dilyn proses o glyweliadau cystadleuol, ymunodd Heledd â dros 160 o gerddorion ifanc eraill o bob rhan o Brydain. Cafodd y cyfle i weithio gydag arweinyddion adnabyddus, yn ogystal â chwarae yn rhai o brif neuaddau cyngerdd Prydain a thu hwnt. Mae Heledd yn un o 5 aelod sydd yn dod o Gymru.

Mae Heledd yn ddisgybl blwyddyn 11 yng Nghwm Rhymni, yn chwarae offer taro, ac yn derbyn hyfforddiant gan Patrick King o gerddorfa Cwmni Opera Cymru.

Dros y flwyddyn newydd, cafodd y profiad arbennig o fynychu'r cwrs cyntaf, gan dreulio wythnos ym mhrifysgol Goldsmiths yn Llundain. Dan arweiniad y cerddor enwog John Wilson, cynhaliodd y gerddorfa ddau gyngerdd, y naill yn Neuadd y Ddinas Leeds a'r llall yn Neuadd enwog y Barbican yn Llundain. Darlledwyd y cyngerdd ar Radio 3 hefyd.

Bydd Heledd yn mynychu dau gwrs pellach, un dros wyliau'r Pasg, a'r llall yn yr Haf. Caiff y cyfle i berfformio yn y Sage yn Gateshead, y Symphony Hall yn Birmingham, y Festival Hall a Neuadd Albert yn Llundain. Bydd y gerddorfa hefyd yn teithio i Berlin yn yr Haf, gan berfformio yng Ngŵyl "Young Classics".

Llongyfarchiadau hefyd i'w chwaer, Manon ar ennill lle gyda Band Pres Cenedlaethol Ieuenctid Cymru. Bydd Manon yn mynychu'r cwrs yn yr haf, ac yn cael y cyfle i chwarae dan arweiniad Philip Harper, sef arweinydd band pres enwog y Cory.

Gair i'ch atgoffa.....

Oeddech chi'n bresennol yng nghyfarfod MyW a'r papur hwn yng Nghlwb Rygbi Caerffili ar Ragfyr 17? A addawoch chi ystyried ymuno â Chanolfan Glowyr Caerffili? (sy'n agor eleni yn adeilad yr hen ysbyty) Ydydych chi wedi danfon eich ffurflen at yr ysgrifennydd aelodaeth eto?

Cofiwch ein bod yn eithriadol o awyddus i gael aelodau sy'n Gymry Cymraeg i sicrhau y bydd hon yn ganolfan gymunedol wirioneddol ddwyieithog.
Diolch o galon am eich cefnogaeth!

Cwmni

Pwy sy'n dod â'r papur i chi

Cadeirydd: Robert Dutt

Ysgrifennydd: Marian Fairclough
faircloughme@aol.com 02920 885151

Ysgrifennydd Cofnodion: Ann Lewis

Trysorydd: Eyron Thomas
e.thomas119@btinternet.com

Golygydd: Ben Jones
benamary2000@yahoo.co.uk 02920 862428

Ymgynghorydd: Ann Lewis

Digwyddiadur: Lowri Jones
Lowri@mentercaerffili.org

Ieuenctid:
Bethan Mair Jones a Morgan Roberts

Tanysgrifio:
Marian Fairclough a Jan Penney

Dyluniwr:
Gareth Williams
bocspostgap@btinternet.com

Argraffwyr: Tower Print (Caerffili)

Cedwir pob hawl i olygu, newid neu gwtogi ar unrhyw gyfraniad yn ôl gofynion gofod.



Ysgol Gymraeg Caerffili

Ddydd Mawrth yr 11eg o Dachwedd, cynhaliwyd gwasanaeth ‘*Best Assembly Ever*’ yn neuadd yr ysgol i wobrwyo’r plant am eu hymddygiad gwych ac i godi arian dros blant mewn angen.

Noddwyd y digwyddiad gan fanc Lloyds a daeth criw i ffilmio’r gwasanaeth. Roedd angen i bawb wisgo fel arch arwyr (*super heroes*) neu liwiau coch a melyn a thalu £1 dros yr achos da hwn. Cafwyd cystadleuaeth am y wisg orau ac roedd angen i’r athrawon arddangos eu gwisgoedd ar y ‘*cat walk*.’ Yr enillydd oedd Mr Griffiths (Pennaeth yr ysgol) yn ei wisg ‘*Super man*.’

Roedd llwyth o bethau gwahanol i ddiddanu’r plant fel hwla hwpio gan Seren Davies, dawnsio disgo gan Teagan Briggs a Darcy John-Cook. Cafodd bawb grys - t gwyn ‘*Best Assembly Ever*’ gan fanc Lloyds. “Am brofiad anhygoel” meddai Amy Pearce. “Llwyddon ni i godi £768.48 erbyn diwedd yr wythnos!”

Diwrnod Pudsey.

Anhygoel! Amy Pearce



Codi calonnau’r henoed lleol gyda charolau - Non Barrett, Bl 6

Ar y 10fed o Ragfyr aeth disgyblion Blwyddyn 6 y côr i ganu carolau i’r henoed yn ardal Caerffili. Roedd yr henoed wrth eu bodd yn cael eu diddanu gyda’r canu swynol ac yn falch iawn o gwmni’r plant. Roedd yn braf hefyd cael cwmni Mrs Anne Evans sydd bellach wedi ymdeol.

Noson Goleuo’r Goleuadau Nadolig! - Ffion Cook

Nos Wener yr 21ain o Dachwedd, canodd côr yr ysgol yng nghanolfan siopa Cwrt y Castell ar noson goleuo’r goleuadau Nadolig yng Nghaerffili.

Roedd hi’n noson aeafol, ond yn ffodus peidiodd y glaw a chynhesodd y gynulleidfa gyda’r canu gwresog. Uchafbwynt y noson oedd cyfri lawr o 10 i 0 ac yna gweld y goleuadau Nadolig yn disgleirio o amgylch y dref. Am noson gyffrous!

Diwrnod i’r Brenin yn Stadiwm Caerdydd Eli Weekes Bl 6

Ddydd Mawrth y 25ain o Dachwedd, cafodd tîm gwyddbwyll yr ysgol ddiwrnod i’r brenin mewn cystadleuaeth gwyddbwyll yn Stadiwm Caerdydd, yn cystadlu yn erbyn ysgolion Cymru a De Orllewin Lloegr. Roedd pawb ar eu hymddygiad gorau ac yn canolbwyntio wrth chwarae yn erbyn nifer o ysgolion preifat a phencampwr Cymru yn ystod y dydd. Roedden ni yn hynod o falch felly i orffen yn wythfed allan o 46 ysgol!

Cyngerdd Carolau yn Neuadd Dewi Sant! Seren Davies Bl 6

Dydd Sadwrn y 13eg o Dachwedd, canodd gôr Ysgol Gymraeg Caerffili mewn cyngerdd Nadolig cofiadwy yn Neuadd Dewi Sant.

Bu’r côr wrthi’n ymarfer am wythnosau o dan arweiniad Mr Osian Rowlands. Roedd wrth ei fodd gyda pherfformiad y saith ysgol a gymerodd ran yn y gyngerdd. Darlledwyd y gyngerdd noswyl y Nadolig am 9.00yb ar radio BBC Cymru Wales, ac am 2.00 brynhawn Nadolig.

Ysgol Gymraeg Caerffili

Ysgol Gymraeg Caerffili eto yn llwyddiannus ym myd rygbi! Eli Weekes

Dydd Iau'r 27ain o Dachwedd, cafodd tîm rygbi'r ysgol lwyddiant mawr yng nghystadleuaeth yr Urdd yn Ysgol Cwm Rhymni ar safle Gellihaf.

Yr her oedd ceisio ennill y gystadleuaeth am yr ail flwyddyn yn olynol. Unwaith eto gwelwyd safon uchel iawn a llwyddodd y tîm i gyrraedd y rownd derfynnol. Cafwyd brwydr gyffrous yn erbyn Ysgol y Lawnt ac Ysgol Trelyn. Fodd bynnag, gyda chwarae agored ac amddiffyn cadarn enillon ni'r gystadleuaeth. Edrychwn ymlaen at gynrychioli rhanbarth Gwent yn Aberystwyth ym mis Mai unwaith eto. Dywedodd y capten Eli Weekes "Chwaraeodd pawb yn wych ac roedden ni'n haeddu ennill y gystadleuaeth".



Sêr Byd Chwaraeon yn ymweld â'r ysgol Eli Weekes

Ar y 26ain o Dachwedd, roeddem yn ffodus iawn i gael ymweliad gan sêr y byd chwaraeon. Daeth Mark Wallace, capten tîm criced Morgannwg, y rhedwr Catherine Camp, y pêl-droediwr Ismael Yakabu a Gareth Bennett o fyd golff i siarad am eu bywydau a'u profiadau. Trefnwyd y digwyddiad anhygoel gan John Poyner, Rheolwr Cysylltu Cymunedau'r Sir.

Mae'r disgyblion yn ddiolchgar iawn i sêr y byd chwaraeon ac i bawb a drefnodd yr ymweliad bythgofiadwy.



Disgyblion yr Ysgol yn tanio i'r brig yn y Traws Gwlad Hannah — Jayne Young,

Yn sgîl llwyddiant yr ysgol yng nghystadleuthau traws gwlad, Clwstwr Caerffili ar y 23ain o Hydref, yn Ysgol Cwm Rhymni, Gellihaf, cafodd disgyblion yr ysgol gyfle i fynd ymlaen i gystadlu yn Aberhonddu ac yn Leckwith.

Yng Nghystadleuaeth Clwstwr Caerffili cafwyd llwyddiant ysgubol. Yn ras Blwyddyn 3/4 y merched daeth Megan Powell (Bl4) yn gyntaf, Gwen Phillips yn 8fed ac Erin Powell yn 9fed. Enillodd Dylan Lawlor (Bl4) ras bechgyn Blwyddyn 3/4 a daeth Zack Amps (Bl3) yn 3ydd. Yn ras ferched Blwyddyn 5/6 daeth DaRy John Cook yn 3ydd a Tegan Evans yn 7fed. Yn ras bechgyn Blwyddyn 5/6, enillodd Jacob Reynolds (Bl6) a daeth Ieuan Rees (Bl5) yn 4ydd, Gruff Williams yn 5ed ac Isaac Carpenter yn 11eg. Enillodd tîm bechgyn Blwyddyn 5/6 a merched Blwyddyn 3/4.

Aeth Bechgyn a merched Blwyddyn 5 a 6 ymlaen i gystadlu yn Aberhonddu ar fore Dydd Sadwrn 15ed o Dachwedd, ac eto rhedodd pawb fel y gwynt a daeth Jacob Reynolds yn 2ail yn ras Blwyddyn 6.

Ar y 3ydd o Ragfyr, cafodd ein rhedwyr brwd o flynyddyddoedd 3 i 6 y cyfle i ddangos eu doniau unwaith eto yng nghystadleuaeth traws gwlad Leckwith. Roedd cystadleuthau ar gyfer timau De Orllewin Cymru yn ogystal â rasis hwyl. Enillodd tîm Blwyddyn 6 sef Jacob Reynolds (Bl6), Ieuan Rees .Gruff Williams (Bl5) ac Isaac Carpenter (Bl5).

Pêl-rwyd Safle'r Gwyndy



Aethon ni fel tîm pêl-rwyd Ysgol Gyfun Cwm Rhymni, safle'r Gwyndy, i Morrisons, Caerffili i helpu pacio bagiau er mwyn codi arian ar gyfer cit a thaith pêl-rwyd.

Dechreuon ni am ddeg y bore a mynd ymlaen tan bedwar y prynhawn. Roedd angen i ni wisgo ein cit addysg gorfforol.

Rhannon ni mewn i barau neu yn unigol er mwyn helpu pacio. Roedd gennym ni fwcddi gyda gwybodaeth am beth roedden ni'n casglu'r arian sef 'Taith i Farbados Pêl-rwyd Ysgol Gyfun Cwm Rhymni'.

Ar y dechrau doedd dim llawer o arian yn dod i mewn gyda phobl yn dweud na, ond wrth i'r diwrnod fynd yn ei flaen casglon ni fwy a mwy o arian.

Daeth mwy o bobl i helpu yn ystod y dydd yn cynnwys blwyddyn 7, felly roedd blwyddyn 7 a blwyddyn 8 yn gweithio gyda'i gilydd i gasglu'r arian at yr un pwrpas. Felly erbyn 4 o'r gloch y prynhawn hwnnw, fe gasglon ni tua £450 o bunnoedd. Rydyn ni'n ddiolchgar iawn i Morrisons am adael i ni godi arian ar gyfer cit a thaith pêl-rwyd.

gan Eleni Griffiths a Manon Lewis.

Ysgol Penalltau



Croeso 2015

Mae 2015 wedi cyrraedd o'r diwedd, felly mae un peth mawr ar ein meddyliau dros y chwe mis nesaf. EISTEDDFOD YR URDD CAERFFILI A'R CYLCH! Yn barod mae'r disgyblion wedi dechrau trafod yr holl waith, paratoi, ymarfer a sbri sydd i ddod. Rydym wir fel ysgol yn teimlo'n hynod gyffrous bod yr Eisteddfod ar ein stepen drws eleni!

Academi Golff Blwyddyn 4

Tybed os oes Rory Mcilroy y dyfodol yn ein dosbarth Blwyddyn 4? Mae dosbarth Blwyddyn 4 Mr Griffiths yn prysur ddatblygu eu sgiliau golff wrth iddynt fod yn rhan o fenter Academi Clwb Golff gwesty Bryn Meadows. Mae disgyblion yn cael hyfforddiant gan y staff proffesiynol, a falle taw nhw fyddwn yn gweld ar y teledu yn y dyfodol.

Wythnos Gwrth Fwlian

Bu cynnwrf mawr trwy'r ysgol wrth i'r staff a disgyblion gymryd rhan yn yr Wythnos Wrth Fwlian. Roedd y plant wedi gwneud pob math o weithgareddau yn ogystal â gwaith cartref gwrth fwlian. Mwynheuodd y disgyblion ymweliad y pypedwr Marc Griffiths a wnaeth rhannu'r neges bod rhaid dathlu'r ffaith bod pawb yn wahanol.

Ymweliad Tesco Cyfnod y Nadolig

Er bod Nadolig yn teimlo fel oes yn ôl erbyn hyn hoffai Ysgol Penalltau ddweud diolch mawr i Tesco Ystrad Mynach am y cyfle i ganu carolau yn y siop cyn diwedd tymor. Roedd yn ffordd hyfryd o orffen y tymor a dechrau teimlo'r nawws Nadoligaidd, yn ogystal â gweld trigolion y pentref yn mwynhau clywed y carolau cyfarwydd yn Gymraeg.

Ysgol y Lawnt

Sêr y dyfodol?



Mae tîm rygbi Ysgol y Lawnt yn dathlu ar ôl clywed eu bod nhw ar y ffordd i Aberystwyth ym mis Mai i chwarae yng Nghystadleuaeth Genedlaethol Rygbi yr Urdd. Chwaraeodd y tîm yn wych yn nhw'r nament y Sir ar ddydd Iau y 27ain o Dachwedd.

Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Wrth grwydro Maes y Genedlaethol y llynedd cefais fy hun yn annisgwyl mewn sgwrs gyda menyw oedd am wybod a oeddwn yn gwybod am hanes ei mab oedd yn wyddonydd. Gyda hyn, fel petai'r cyfan wedi'i sgrïptio ar gyfer drama, dyma'r mab yn ymddangos ac yn adrodd ychydig o'i hanes. Bachais ar y cyfle i'w wahodd i ddod atom a chael ymateb parod cadarnhaol. Brodor o Gwm Gwendraeth, disgybl yn Ysgol Uwchradd Tregwyr, myfyriwr meddygaeth yng Nghaergrawnt, meddyg yn Ysbytai Hammersmith a Clatterbridge a nawr yn Ymchwilydd On-colegol yn Ysbytai Prifysgol Rhydychen ac yn ymwelydd yn CERN, Genefa.


Dyna gefndir ein cyfarfod diwethaf ar Dachwedd 17eg, pan ddaeth Dr. Bled-dyn Jones i draethu ar y tes-tun: Triniaeth Pelydr Proton ac Ionau Positif: Manteision ac Anfanteision. Dulliau trin canserau oedd dan sylw, gyda chyfeiriadau at nodweddion pelydrau proton a phelydrau-X. Yn sail i bob math o sganio mae cynnyrch peir-

Cawson nhw ddechreuad gwyh, gan ennill pob un o'r 4 gêm gyntaf, cyn mynd ymlaen i'r rownd derfynol. Yna, wynebion nhw gystadleuaeth gadarn yn erbyn enillwyr y grŵpiau eraill, a'r pencampwyr ar hyn o bryd, Ysgol Gymraeg Caerffili. Er eu bod wedi curo Ysgol Gymraeg Trelyn, yn anffodus nid oeddent yr un mor llwyddiannus yn erbyn Ysgol Gymraeg Caerffili, a chollon nhw'r gêm o un cais yn unig! Serch hynny, roedd eu buddugoliaeth yn erbyn Ysgol Trelyn yn golygu eu bod wedi dod yn ail yn y gystadleuaeth gyfan, ac felly yn gymwys i fynd ymlaen i'r Twrnament Cenedlaethol ym mis Mai. Wrth gwrs, mae'r bechgyn wrth eu bodd, ac rydym fel staff a rhieni yn falch tu hwnt o'u llwyddiant! Da iawn fechgyn!!

Gwefr y Proton

iaunau sy'n creu gronynnau o egni uchel a all dreiddio i berfed-dion corff dynol at leoliad penodol y drwg, gan ddifa'r drwg ond cadw'r da. Dyna'r nod bob amser, er mwyn ceisio sicrhau bod cleifion nid yn unig yn cael rhyddhad o salwch ond yn gallu mwynhau peth o'r bywyd da.

Cawsom olwg ar gymhlethdodau'r trafodaethau ymhlith meddygon lle nad oes cytundeb gan fod y maes yn dal yn arloesol. Cafwyd peth dealltwriaeth o'r her i wleidyddion sy'n gorfod penderfynu ar wariant enfawr o arian a dewis pa beiriant i'w brynu gan wybod y bydd rhaid i'r peiriant hwnnw weithredu am ddegawdau, er mwyn cael gwerth am arian. Un agwedd nad oeddwn i wedi sylweddoli yw, yn wahanol i driniaethau gyda chyffuriau lle mae canllawiau cadarn ynghylch dds y gellir ei roi i gleifion, nid oes cyfraith yn cyfarwyddo'r meddygon hyn; rhaid ymddiried i feddygon y rhyddid i fentro'n gyfrifol. Byddwn yn cyfarfod nesaf ar y 19eg o Ionawr.



Menter Caerffili

Bu'r Ffair Nadolig eleni'n llwyddiannus iawn. Roedd 30 o stondinau'n gwerthu nwyddau amrywiol, roedd Siôn Corn yno ac adloniant gan Martin Geraint a chorau'r ysgolion lleol. Fe wnaethon ni hefyd gynnal Sadwrn Siarad yn y ffair eleni a mynychodd criw o chweched Cwm Rhymni'n ogystal â'r siaradwyr misol i gael sgwrs.

Sesiwn Crefftau - Aeth criw bach neis i'r ddau sesiwn crefftau Nadolig ym mis Rhagfyr. Roedd Sandra Rose yn arwain, a bu cyfle i wneud crefftau Nadolig i'r cartref. Mae lluniau ar Facebook os ydych eisiau gweld mwy.



Manylion cysylltu:
01443 820913

bethanjones@mentercaerffili.org

morgan@urdd.org

Dyma'r plant yn mwynhau Taith Harry Potter

Urdd Gobaith Cymru

Aelwyd Cwmffili - Aeth dros 20 o aelodau aelwyd Cwmffili ar y trên o Gaerffili i Wyl Gaeaf Caerdydd i sgelfrio a gweld lori Nadolig Coca Cola. Er iddi lawio wnaeth hyn amharu dim ar fwynhad y bobl ifanc a'r gwirfoddolwyr o'r chweched.

Pobl ifanc (Prosiect MentUrdd Caerffili)Taith Supertubing a Nofio

- Mynychodd llond bws mini o bobl ifanc y daith i Lyn Ebwy lle bu'r criw yn nofio yn y ganolfan hamdden ac yna'n mwynhau Supertubing (mynd lawr mynydd mewn tiwb!). Cawson nhw hefyd gyfle i wneud siopa Nadolig a chael siocled poeth.

Teithiau i ddod...

Chwefror: Dydd Gwener
Chwefror 13: Taith Syrffio dan do a rhaffau uchel yng Nghaerdydd (Diwrnod HMS Cwm Rhymni) Dydd Iau
Mawrth 12: Taith Ddringo

Taith Harry Potter - Dyma le diddorol iawn i gefnogwyr Harry Potter a phobl sydd hefo diddordeb mewn dysgu sut mae creu ffilmiau. Roedd cyfle i ddysgu cyfrinachau ffilmio, gweld set, props a gwisgoedd y cymeriadau, yn ogystal â hedfan ar ysgubell. Roedd y criw a fynychodd yn wych ac fe wnaeth y staff a'r bobl ifanc fwynhau yn fawr.

Sioe Shrek - gan griw PCAI Cwm Rhymni

Mae Sioe Shrek yn cael ei pherfformio ar y 7fed o Chwefror, 2015 ym Medwas. Bydd y sioe yn cychwyn am 7.30 y.h. a bydd angen archebu tocynnau o flaen llaw. Os oes gennych ddiddordeb, cysylltwch â 'bethanjones@mentercaerffili.org' i archebu tocyn am ddim.

Mae'r sioe yn cael ei pherfformio gan nifer o ddisgyblion Ysgol Cwm Rhymni safle Y Gwyndy a disgyblion safle Gelli Haf. Mae disgyblion hefyd yn gweithio tu cefn i'r llwyfan, hefo aelodau o flwyddyn deuddeg a thair ar ddeg yn cyfarwyddo a chynhyrchu'r sioe.

Cafodd y sioe ei chynllunio fel rhan o brosiect PCAI, sef grŵp o chweched dosbarth Cwm Rhymni sydd yn ceisio hybu'r iaith trwy gynnig gweithgareddau tu hwnt i'r ysgol, trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae Aelwyd Cwmffili yn llwyddiannus iawn hyd yn hyn, hefo nifer dda yn mynychu ac yn cymdeithasu yn y Gymraeg pob wythnos.

Mrs Moyra Davies

Mae ein diolch yn fawr i Mrs Nia Parsons am adael i'r Golygydd gael benthyg llyfrau ei diweddar fam. Mam Nia oedd Mrs Moyra Davies ac yn fwy na bod yn fam i Nia ac Ann teimlai llawer ohonom mai hi oedd "Mam Ysgolion Cymraeg" y cylch yma.

Hi, yn 1961, ddechreuodd y dosbarth cyntaf un yn yr adeilad lle mae Ysgol Gymraeg Caerffili nawr. A hynny cyn symud "Ysgol Gymraeg Caerffili" i fyny i adeiladau hen Ysgol Uwchradd Fodern Senghenydd.

Ond pan agorwyd ail ysgol yn Stryd Parcyfelin enwyd ysgol Mrs Davies yn Ysgol Gymraeg Senghenydd cyn ei bedyddio yn Ysgol Ifor Bach. Ac mae'r ysgol honno bellach mewn adeiladau newydd yn Abertridwr.

Casglodd gerddi, emynau a gweddïau ar gyfer cyflwyno'r Gymraeg i blant, a hynny mewn adeg pan oedd y gwaith yn arloesol.

Pan oedd yn bennaeth ar yr ysgol yn Senghenydd roedd yn byw yng Nghefn Llwyd, lle'r oedd ei gŵr Gwilym yn ffermio. Collwyd Gwilym yn 1997 a bu farw Mrs Davies yn y flwyddyn 2009.

Myrddin ap Dafydd, Bardd y Gadair

Rhyfedd fu heulwen 'lenni - mwy rhyfedd
Ym mhrifwyl Cwm Rhymni,
Fu sgrafen d'awen di
A gwiw hanes y geni.

Rhys Nicholas

Iwan Llwyd, Bardd y Goron

Heddiw o'i swydd weinyddol – hwn
Yw'r gŵr biau'r gân ysgytiol,
Mae'n brifardd, bardd heb gybôl
Hogiau mae'n fardd swyddogol.

Nia Parsons, Cyflwynydd y Corn Hirlas

Mae tlysni perlog Nia
Loyw ei threm
fel gwlith yr haf.

Catrin Brooks, Cyflwynydd yr Aberthgerdd

Godidog yw'n ei chlogyn
Tirion yw gwedd
Catrin Gwynne.

Ein pleser yn "Cwmni" fydd cyhoeddi rhai o'r cerddi hyn yn ystod y misoedd a'r blynnyddoedd nesaf fel parhad i'n cyfres, "Cerdd y Mis".

Cafwyd arweiniad blaengar gan Mrs Davies adeg ymweliad yr Eisteddfod Genedlaethol a'r ardal yn 1990. Dyma rhai o'r cerddi a ganwyd i gofio'r achlysur,



S4C

DNA Cymru

8.00

1 Mawrth

Pwy yw'r Cymry? Edrych yn ôl drwy'r canrifoedd er mwyn deall ein gorffennol a'n presennol.

s4c.co.uk

Am ragor o wybodaeth ewch i s4c.co.uk/cymrudnawales

S4C Clic  

9fed o Ionawr, 2015

Annwyl Olygydd,

Carwn dynnu sylw'ch darllenwyr at ddogfen o'r enw 'Dewiniaith' sy'n amlinellu gweledigaeth ar gyfer Mudiad Meithrin dros y ddegawd nesaf. Cyhoeddir 'Dewiniaith' ar Ionawr 20fed.

Mae cylch meithrin lleol yn bodoli mewn cannoedd o bentrefi, trefi a dinasoedd Cymru ac yn ganolbwynt pwysig i fywyd y gymuned wrth ddarparu gofal ac addysg o safon drwy gyfrwng y Gymraeg. Ymfalchiwn yn y ffaith mai dyma ddechrau taith ieithyddol i nifer o blant o deuluoedd ble na siaredir y Gymraeg. Cyn bwysiced yw'r ffaith fod y cylch yn darparu profiadau hwyliog o chwarae a dysgu i filoedd o blant bach Cymru. Os ydych am ddarganfod ble mae cylch yn eich ardal chi, ewch i 'Chwilio am Ofal Plant' ar ein gwefan (cyfeiriad isod). Fel mudiad, byddem yn hynod falch o gael clywed barn pobl Cymru am gynnwys 'Dewiniaith'. Mae modd lawrlwytho copi o wefan Mudiad Meithrin (www.meithrin.cymru) neu gael copi caled drwy ffonio 01970 639639. Os yn trydar neu ar *Facebook*, ewch i @MudiadMeithrin neu www.facebook.com/MudiadMeithrin.

Yn gywir,

Rhiannon Lloyd (Cadeirydd Mudiad Meithrin)

Annwyl Olygydd,

Hoffwn ddiolch yn fawr i Wendy Lewis am ei herthygl am Ryfel Cartref Sbaen yn rhifyn Rhagfyr 2014 o Gwmni, ac edrychaf ymlaen at ddarllen mwy yn y rhifyn nesaf.

Tueddwn ni anghofio am y cysylltiad clos a fu rhwng y Cymry a'r sawl a fu'n cwffio'n aflwyddiannus dros ddemocratiaeth a rhyddid yn Sbaen rhwng 1936 a 1939 a thu hwnt. Atgofion yr ail ryfel byd wedi cymryd ei le, siwr o fod, ond yn wir, yr ymgyrch o blaid y Weriniaeth Sbaeneg oedd y mudiad dosbarth gweithiol mwyaf pwysig yn Ne Cymru ers ymgyrch y Siartwyr, a dylai cyfraniaid y Cymry fod yn destun balchder -- boed hynny'n filwyr, neu arian neu loches i ffoduriaid -- at yr ymgyrch gwbl gyfiawn hon: ymgyrch a fradychwyd a thanseiliwyd gan lywodraeth Prydain fwy nag unwaith.

Doeddwn i erioed yn gallu deall sut yr oedd teuluoedd Prydeinig yn gallu gorwedd yn llonydd ar draethau'r Costa del Sol a'r Costa Brava yn 60au a 70au'r ganrif ddiwethaf, tra bod Franco a'i griw wrthi'n lladd cenedlaetholwyr Catalan a Basg gyda'r 'garote vil', ar ôl eu poenydio'n ddi-drugaredd yng ngharchardai'r fyddin a'r Guardia Civil.

Gwrthodais i ymweld â Sbaen tra bod Franco'n fyw, a wnes i ddim ymweld â'r lle ar ôl hynny ychwaith (diffyg arian, gormod o waith ac ati) ond chwe mlynedd yn ôl dechreuais i ddysgu Sbaeneg, ac ers hynny wedi ymddiddori'n fawr yn hanes Sbaen yn yr 20fed ganrif.

Dwi wedi siarad erbyn hyn gyda nifer go lew o Sbaenwyr am eu profiadau a phrofiadau eu teuluoedd yn y rhyfel cartref gwaedlyd hwnnw ac yn ystod yr unbennaeth a ddilynodd, ac y mae'r awydd i gael cyfiawnder ar gyfer eu hanwyliaid mor fyw ac erioed. Er cof am y rhai a gollodd eu gwaed dros ryddid mi rydwi'n cefnogi nifer o fudiadau fel "Plataforma por la Comisión de la Verdad sobre los crímenes del franquismo" (Platfform ar gyfer Comisiwn y Gwirionedd ynglŷn â throseddau cyfnod Franco). Gobeithio, wedi darllen erthyglau Wendy Lewis, bydd eraill yn ystyried gwneud hynny hefyd.

Hoffwn i fyw'n ddigon hir i weld dymchwel erchylltra 'Valle de los Caidos' a gweld cofeb i'r caethweision o weriniaethwyr a fu farw'n ei adeiladu, wedi'i godi yn ei le.

Yn gywir iawn,

Peter Bradley



Ysgol Gymraeg Bro Allta

Gweithio'n gytûn er mwyn rhoi'r addysg orau i'n plant

Bwrllwm Bro Allta

Ymweliad Aneirin Karadog



<http://davin.ci/barddplant>



<http://barddplantcymru.co.uk/beirdd-bach/>

Daeth bardd plant Cymru—Aneirin Karadog i ymweld â disgyblion blwyddyn 5 a 6 er mwyn cynnal gweithdy barddoniaeth. Ffocws y gwaith oedd 'Eisteddfod 2015' sydd yn prysur agosai! Fe luniodd y disgyblion pob math o gerddi ar Gaerffili a'r Fro gan roi ffocws i rai o atyniadau mwyaf enwog y cwm! Bu perfformiadau gan y disgyblion wrth iddynt adrodd eu cerddi o flaen y dosbarth ac fe gawsom berfformiad arbennig gan Aneirin...Sganiwch y llun gan ddefnyddio ap 'Aurasma' i gael gweld Aneirin yn 'rapio'. Sganiwch y codau QR i gael gweld cerddi'r disgyblion ac i ddarllen eu gwaith sydd erbyn hyn wedi eu cyhoeddi ar flog Aneirin.



**Pan welwch y symbol yma  gallwch sganio'r llun i weld fidio rhyngweithiol. I wneud hyn lawr lwythwch ap 'Aurasma' ar eich iPad, iPhone neu ddyfais Android. Chwiliwch am 'Bro Allta' drwy glicio ar y chwyddwydr a dilynwch ein sianel 'BroAllta's Channel'. Wedi gwneud hyn gallwch sganio'r lluniau sydd yn y papur yma a bydd fidio yn ymddangos ar sgrin eich teclyn apple neu android!*

Clwb Animeiddio TGCh



Mae blwyddyn 3 a 4 wedi cael y cyfle i ddatblygu eu sgiliau TGCh bob nos Iau yn ein clwb animeiddio. Yma fe edrychom ni ar nifer fawr o wahanol dechnegau a defnyddio ystod o feddalwedd gwahanol i newid ein syniadau o'r bwrdd stori i'r cyfrifiadur neu'r iPad. Sganiwch y llun ar y chwith gan ddefnyddio ap 'Aurasma' i weld un enghraifft o'r animeiddiadau a grewyd gan y criw. Ffocws ein clwb TGCh y tymor yma bydd 'codio a rhaglenni' gan ddefnyddio rhaglen Kodu a Purple Mash i flwyddyn 5 a 6.





Ysgol Gymraeg Bro Allta

Gweithio'n gytûn er mwyn rhoi'r addysg orau i'n plant

Bwrllwm
Bro Allta

Sioeau a Chyngherddau Nadolig

Sganiwch y llun i gael chwyed un o ganeuon Joseff!



Bu sioeau Nadolig Bro Allta yn lwyddiant ysgubol y flwyddyn hon. Roedd perfformiad gan dosbarthiadau meithrin a derbyn, noson garolau i flwyddyn 1 a 2 yn sgwar y pentref a 'Joseff a'i got amryliw' oedd sioe yr Adran Iau. Gwerthodd y plant eu calendrau cyn y perfformiadau hefyd ar gyfer ein prosiectau Menter a Busnes. Diolchwn yn fawr i'r rhieni a staff a ddaeth i gefnogi a helpu'r ysgol i



godi arian tuag at y gronfa.

Panto Patagonia

Ar yr wythfed o Ionawr fe deithiodd yr adran Iau i Sefydliad y Glowyr yng Nghoed Duon. Panto i blant oedd hon a oedd wedi ei sylfaenu ar daith arwrol y Cymry i Batagonia ar fwrdd llong-cario-te y Mimosa a'u hanesion geirwon yn ceisio sefydlu'r Wladfa dan amgylchiadau mor arw ac mewn gwlad mor bell. Yn 2015 byddwn yn dathlu 150 o flynyddoedd ers y fordaith chwedlonol honno i Borth Madryn yn Ne yr Ariannin. Mwynhaodd y disgyblion berfformiad arbennig gan gwmni Mega ac fe fydd yn ddefnyddiol iawn i flwyddyn 3 a 4 sydd wedi ffocysu eu thema tymhorol ar Batagonia.

Cystadleuaeth CogURDD

Ar ddydd Iau y pymthegfed o Fedi fe newidiodd neuadd yr Ysgol i edrych yn fwy tebyg i set y 'British Bake-Off'! Roedd dros 30 o ddisgyblion brwd yn barod yn eu ffedogau lliwgar i syfrdanu y beirniaid gyda'u sgiliau trefnu, torri, hylendid a chyflwyno wrth iddynt fynd ati i ddilyn ryseit creu salad ffrwythau. Roedd y safon yn uchel iawn ac roedd hi'n anodd iawn dewis 2 enillydd o'r criw i gynrychioli'r ysgol yn y rownd nesaf. Derbyniodd pawb dystysgrif arbennig ac fe enillodd y ddwy fuddug wraig daleb o £5 i wario yng nghaffi 'Gaffaccino's' yn Ystrad Mynach. Hoffem ddiolch yn fawr i Miss Roberts am drefnu'r weithgaredd ac i staff 'Gaffaccino's' a ddaeth i feirniadu'r gystadleuaeth.



Trip Glanllyn

Teithiodd criw o ddisgyblion blwyddyn 6 i Lanllyn ar y pedwerydd ar bymtheg o Ionawr i gymryd rhan mewn nifer o weithgareddau arbennig ger y Bala. Cafodd y disgyblion y cyfle i ganwio, bowllo 10, adeiladu rafft, rhoi cynnig ar y cwrs rhaffau uchel a llawer, llawer mwy! Daeth pob un disgybl yn ol ar ddydd Gwener yn wen o glust i glust gyda nifer o straeon difyr am eu hymweliad cyntaf i'r gwersyll! Fe werthwyd lluniau o'r wythnos arbennig hon ar 'DVD' fel rhan o'n prosiect Menter a Busnes ac rydym yn siwr y bydd yr atgofion yn aros yn y cof am flynyddoedd i ddod!



15 Stryd y Bedol,
Y Ro Wen,
Abergofiant,
Meiriondir.

3ydd O Ionawr 1914

Annwyl Betsi,

Mor hyfryd oedd derbyn dy lythyr fis yn ôl, ni fyddai fy Nadolig wedi medru bod yn well! Roedd yn hwb ymlaen i mi ymysg yr erchyllterau yma, ond yn fwy na dim mae fy llinach yn ddiogel mewn un bach. O na bawn yno efo ti! Mae'r rhwyg yn fy nghalon yn fwy nag y gallet ddirnad, mae'r ysfa am ddod adre'n tyfu ynof fwyfwy bob dydd. Ond angel, paid colli calon, dêl y pethau gorau wedi'r gwaith caled. Rwyf sicr o hynny. Sut mae'r hogyn erbyn hyn? Mi fihafia'n iawn unwaith yr ydw i dros y trothwy eto. Cofia fynd ag o i'r mynyddoedd, dysga'r enwau iddo, a gofala iddo deimlo'i hanes i'r byw yn lle'i ddysgu'n unig!

Mae'r newydd yma hefyd mor ganologol i mi, daw â'n priodas ni at ei gilydd mewn un cylch llawn. Oes arnaf angen unrhywbeth arall yn awr? Gwraig addfwyn hyfryd a phlentyn yn cofio atof o fro fy mebyd. Mae hyn yn ysbardun i mi gyflawni fy nhasg a dod oddi yma cyn gynted â phosib.

Mae arna i ofn fod pethau'n waeth nag oeddwn i wedi tybio yn fan hyn. Mae'r Almaenwyr yn brysur yn ysgubo'r Belgians o'r neilltu ac ar gyrraedd Ffrainc lle'r ydw i'n paratoi. Ond na hidia, mae yma ddigon o wŷr ac arfau i gyrchu cyrff y diawlaid adref.


Serch hynny mae ergydion ar yr awel heb os, ac mae'r awyr fel petai'n duo fel mae'r dyddiau'n mynd rhagddynt. Mae cynnwrf yn y dynion – mae hyn yn anghyfarwydd i ni i gyd, a does dim tebyg iddo o fewn hanes i'n cysuro ni. Mae'r drycin ar y gorwel angel, ac yn hongian am fy ngwddf mae'r groes. Na, dydw i ddim yn greadur crefyddol gwaetha'r modd, ond ar fy llw mae yna wres yn tonni ohono fel na allaf ei amgyffred. Ac hyd yn oed os nad oes neb yn gwyllo drosof gallaf fod filgwaith yn falchach pan ddaw hyn i ben. Os oes, bydded iddo 'nghadw dan ei fantell rhag sarnu'r gwaed, er lles i ti a'n plentyn yn unig, rhag dy fod yn gweld fy nyheadau'n hunanol braidd!

Yn y misoedd diwethaf lletyom mewn tai a fframiau pren, ond yn awr mae'r ceibiau, y rhofiau a'r morthwylion yn codi llochesi tanddaearol i'r milwyr. Rydyn ni fel catrawd wedi bod wrthi ers wythnosau'n chwys domen, ac nid yw'r frwydr iawn wedi dechrau eto! Mae yna un neu ddau sydd heb wneud cnoc o waith, ond fyddan nhw ddim yn segura am hir. Maen nhw'n galw arnaf eto! Mi ddof yn ôl at y llythyr yma'n y man i'w orffen, ond gwybydd fy mod yn ddiddig ac yn meddwl amdanat. Iddi!

Cas gŵr nas caro'r wlad a'i maco,

Wmffre

Dyma gyflwyno'r ail yn y gyfres o lythyrau a ysgrifennwyd gan Gruffudd Gwyn. Llythyron ydyn nhw gan filwr yn ffosydd y Rhyfel Mawr at ei gariad nôl yng Nghymru. Enillodd Gruff ganmoliaeth uchel gan feirniad Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd y llynedd ac mae hefyd wedi ennill Cadair Eisteddfod y Cymoedd ddwywaith.



Awdur y gyfrol fechan pedwar deg pedair tudalen, 'Hanes Eglwys y Watford', a gyhoeddwyd yn 1939, oedd y Parchedig R.T.Gregory, Cloverdale, Gwaelod y Garth. Ei unig fab, William Havard Gregory, a fu farw ar y 14eg o Ebrill y llynedd, a'i helpodd i ddarparu'r map ar dudalen 4 y gyfrol. Flynyddoedd yn ddiweddarach fe weithiodd Havard, a gafodd flas ar loywi ei gynganeddion a'i gerddi yn nosbarth barddoniaeth Rhys Davis yn festri capel Bethlehem, Gwaelod y Garth, daflad carreg o'i hen gartref, soned i 'Y Groeswen' yn 2004. Cofiodd bod Ieuan Gwynedd – Y Parchedig Evan Jones (1820-52), gweinidog a newyddiadurwr, wedi ei gladdu ym mynwent capel Y Groeswen,

Mae arall drysor yn ei muriau moel
A mwy huoddedd yn ei Beibl Mawr
Nag yn holl ddiddim rwysg parwydydd
coel

Ac yn oferedd balch eurdemlau'r llawr.
Mae diolch Iddo – ddau neu dri, neu dair
Yn dal i ddeisyf Ffordd Emaus eu bro,
Lle gynt bu lluoedd gwlad yn ceisio'r Gair
A'i nerthol foddion i roi Diawl ar ffo.
Ac yna, wedi 'chwerw boen y byd'
Y cyrchwyd Ieuan ar ei olaf daith,
A phum mil gŵr yn hidlo dagrau mud,
Yn wargam – yntau'n rhydd a hwythau'n
gaeth
Na fydded inni ollwng 'r oll i'r gwynt
Cyn elom ninnau ar derfynol hynt.

Roedd ef yn gwybod am gapeli Cwm
Rhymni ac yn adnabod pobl adnabyddus y
cylch: "Deuthum i adnabod Trefin (Edgar
Phillips 1889-1962) yn dda, a mynych yr
oriau a dreuliais ar ei aelwyd ef â'i briod
Maxwell Fraser yn y Coed Duon, yn
gwrando arno yn olrhain ei yrfa.
Synhwyrrwn ei ddawn fel cywyddwr, a
chefais yr adeg honno gryn foddhad o
ddarllen ei waith; ond gallwn bellach fy
nghicio fy hun am fethu â bod yn fwy eofn
– neu aeddfed? – i'w holi'n fwy manwl am
ei waith fel bardd ac am y beirdd a gafodd
ddylanwad arno." Collais innau gyfle i
drafod bywyd a gwaith y bardd a enillodd
Gadair y Genedlaethol, Wrecsam, yn 1933.
Trefin a ddywedodd am Gwm Rhymni,

Mae'r hen gwm a'i werin gaeth
Yn boddi mewn snobyddiaeth.

Colofn Dafydd Islwyn



Mynwent
y
Groeswen

Yn y Genedlaethol, Bro Dinefwr, a gynhaliwyd
yn Llandeilo yn 1996, testun y cywydd oedd "Y
Filltir Sgwâr" a gosodwyd cywydd Havard yn ail.
Ysgol ei febyd yn y Cymer, lle mai ef oedd yr
unig blentyn a siaradai'n Gymraeg, ydy'r filltir
sgwâr. Mae e'n agor yn ddychanol gan
ddisgrifio'r ysgol ddi-Gymraeg. Ond yn ystod ei
fywyd daeth tro ar fyd. Agorwyd Ysgol Gymraeg
yno a chodi calon y cywyddwr,

A gwynfa o ddarganfod
Newydd ddoe, heddiw ei ddod!

Y tadau a'r mamu mwy
Heddiw redodd i'r adwy
Eu llon gân yn llenwi gardd
A'u dyhead diwahardd.

Brawd-yng-nghyfraith i Havard oedd Elvet
Thomas, Caerdydd. Athro'r Gymraeg o'r mwyaf
a ddysgodd lawer llanc ifanc uniaith Saesneg i
dyfu'n Gymro pybyr a dawnus. Un ohonynt ydy
Bobi Jones, Aberystwyth, ac yn ei hunangofiant
'O'r Bedd i'r Crud', Gwasg Gomer 2000, mae ef
yn rhestru'r disgyblion a ddaeth dan ddylanwad
W.C.Elvet Thomas (1905-1994). Canodd Havard
gywydd iddo. Yr ail gwpled ydy,

Mae athraw yr athrawon
Fu'n wrtaith i'r heniaith hon?

Bob Nadolig gweithiai Havard englyn neu Hir a
Thoddaid. Englyn a gafwyd Nadolig 1994, 'Y
Doethion',

Nid eu rhodd a adroddwn; am eu haur
Thus a myrr anghofiwn;
Erys nos eu defosiwn
A rhyfeddod Duwdod Hwn.

Y Nadolig hwn cesglais ei englynion i'r Wyl at ei
gilydd â pharch i wr eang ei ddiwylliant.



**Y Parchedig
Ddoctor R. Alun
Evans
Teyrnged Eyron
Thomas**

Mae aelodaeth Bethel, Capel yr Annibynwyr, Caerffili newydd ffarwelio â'i gweinidog, y Parch Ddr R Alun Evans, wedi 14 mlynedd o wasanaeth. Dyma weinidogaeth lewyrchus arall i ddilyn y Parchedigion Denzil John a Dr Gwilym ap Robert drwy'r 80au a'r 90au.

Cychwynnodd Dr R Alun ym Methel ar Sul cyntaf 2001 wedi iddo symud yn ôl i Gaerdydd yn dilyn ei ymddeoliad fel Pennaeth y BBC ym Mangor. Addawodd bum mlynedd o wasanaeth i Fethel ar y pryd – ond mawr oedd diolchgarwch ffyddloniaid y Capel iddo am ymestyn y cyfnod hynny hyd ddiwedd 2014.

I ddathlu'r weinidogaeth ac er mwyn diolch i'w gweinidog am wasanaeth diflino, daeth yr aelodau ynghyd ar ddechrau Rhagfyr ym mwyty'r Bella Capri, Caerffili. Talwyd teyrnged iddo gan Eyron Thomas, yr Ysgrifennydd drwy fwyafrif ei gyfnod ym Methel, gan ddiolch iddo am:

- ei bregethu diddorol ar faterion cyfoes y dydd gyda dehongliad o'r ysgrythurau ar drychinebau'r byd
- ei barodrwydd i ymweld mor gyson â'r henoed a'r rhai oedd yn dioddef anhwylder ymhlith yr aelodau, yn

enwedig i'w gweld mewn ysbytai

- drefnu Teithiau Pedwar Tymor i'r aelodau i lefydd hanesyddol a diddorol, e.e. Abaty Llanthoni, Gregynog a Chapel y Ffin, neu i theatrau Caerdydd neu Eisteddfodau. Ac fel arweinydd da, ef oedd yn gyrru'r bws mini!
- sbarduno Eisteddfod y Cymoedd bob mis Hydref yn Ystrad Mynach; eisteddfod sydd erbyn hyn wedi sefydlu'i hun yn niwylliant y fro hon.
- drefnu oedfa'r Plygain ym Methel bob mis Ionawr gan wahodd llawer o unigolion, partïon a chorau i ddathlu blwyddyn newydd
- am gynnal oedfa Cristnogion yn Erbyn Poenydio ar ddechrau Tachwedd yn flynyddol a threfnu i siaradwr gwadd diddorol fod yn bresennol

Ar ddiwedd yr achlysur cyflwynodd aelodau'r Ysgol Sul 'i-pad' i Dr Alun, gyda blodau i Mrs Evans, a siaradodd Mr Elwyn Parry am ei atgofion o'r gweinidog yn dod yn ei dro i bregethu ym Methel yn y ganrif gynt.

Mewn ymateb i'r dathliad ac o dderbyn anrheg y capel diolchodd Dr Alun i bawb am gyfnod hapus yn arwain yr eglwys ac am gynnig y cyfle iddo yn 2001 i ailgydio yn y weinidogaeth ar ôl cyfnod hir yn y BBC.

Dymunwn bob lwc a bendith iddo yn ei ymddeoliad.

Wrth ddrws eglwys Martin Sant yn Belchite, ysgrifennodd un o'r trigolion olaf neges ffarwel deimladwy: "Pentref Belchite, fyddwch byth eto'n clywed plant yn chwarae na chanu na dawnsfeydd *jolta* traddodiadol ein cyn-dadau."

Cerddon ni drwy stryd iasol, wag. Dangoswyd olion adeilad ar gyrion y dref inni, un o'r unig adeiladau 3 llawr â dŵr ffres ynddo, a ddefnyddiwyd yn gyntaf fel ysbyty, yna fel pencadlys y Ffalanchwyr. Roedd Sidney yn cerdded i lawr y stryd hon wrth warchod carcharorion ffasgaidd pan saethwyd e'n farw gan gël-saethwr.

Wrth i ni fynd drwy borth y dref, cyfarfyddom â pharti o fenywod mewn gwisg draddodiadol Aragonaidd. Edrychai'n le rhyfedd ar gyfer dathlu. Gofynnodd y dyn oedd gyda nhw, "O ble ydych chi'n dod?" - "Yr Alban, Iwerddon, Lloegr a Chymru."

"NA" meddai'n bwysleisiol, "Y Deyrnas Gyfunol."

Roedd hi'n amlwg ei fod yn erbyn datganoli a hunaniaeth ranbarthol oherwydd gwelir hyn yn fygythiad i reolaeth ganolog Madrid.

Yn adfeilion y ddinas a adawyd roedd graffiti yn dangos bod gwleidyddiaeth y Rhyfel Cartref yn dal i fod yn bwnc llog. Roedd haenau o graffiti yn cystadlu am ofod - ffasgaidd, anarchaidd, y rhai dros annibyniaeth Aragon - wedi'u paentio a'u trosbeintio.

Datganodd y Cadfridog Franco ei fod "yn adeiladu Sbaen newydd ar gyrff y syrthiedig". Yr hyn a olygai oedd cyrff y buddugwyr. Teimlir o hyd yr ofn a grëwyd drwy ddegawdau o orthrymder dros y mater o ddatgladdu'r meirw Gweriniaethol.

Ymladdwyd y rhyfel yn Sbaen, a welir yn aml fel rhagymadrodd i'r Ail Ryfel Byd, gan ddefnyddio hen dactegau ac offer y Rhyfel Byd Cyntaf: ceffylau, bidogau a rhyfela yn y ffosydd. O gwmpas El Saso adroddai'r ffosydd eu hanes eu hun am filwyr a gysgodai yma: gwelwyd sbringiau rhydlyd gwelyau wedi'u gosod ar y to rhag taniadau mortar, esgyrn ŵyn wedi'u coginio a'r barlys a ddefnyddid yn

Ailymweld â Rhyfel Sbaen (2)



Sidney Shosteck, ewythr Wendy ac Elaine

lle coffi.

Yng ngolau'r bore mae strydoedd Codo yn wag. Dim ond trydar yr adar a chlychau pell gyrr o eifr yn ymlwybro tua'r borfa. Mae hen wreigan yn sgubo'r stryd o flaen ei thŷ ac yna'n diflannu. Mae'r bobol hŷn yn edrych gan ddychwelyd "Hola" gwylidwrus wedi iddyn nhw fynd heibio. Mae hanes yn pwyso'n drwm yma.

Holodd y newyddiadurwraig Alvaro Minguito'r gwirfoddolwyr i gael gwybod pam ddaethom ni i Sbaen i gymryd rhan yn y prosiect. Roedd ein hateb ni yn debyg i nifer o rai eraill: roedd Sidney yno drwy'r amser yn y cefndir, yn ddi-ddweud ac anhysbys ond yn rhywun yr oedd ei argyhoeddiad dwys a'i awydd i wneud y byd yn lle gwell i fyw ynddo wedi bod yn fodel i ni.

Gan bwyll ond â sicrwydd, datgelir gwirionedd profiad pobol Sbaen.

Wendy Lewis

Y DIGWYDDIADUR

**Menter Iaith Sir
Caerffili**

**Cwrs Coginio 6
wythnos**

Eluned Davies-Scott

Ionawr 26ain

6:30-8:30pm

Ysgol Gyfan Cwm

Rhymni,

Safle'r Gwyndy

Cyswllt: Ffion Rees

£5 y sesiwn

(fe fydd angen I chi ddod a
chynhwysion gwahanol yn
wythnosol)

**Dewch draw i Neuadd y Gweithwyr Bedwas
i weld perfformiad Aelwyd Cwmffili o...**



Dydd Sadwrn y 7fed o Chwefror 2015 7.30pm
AM DDIM

Rhaid archebu tocyn o flaen llaw drwy gysylltu â:
'bethanjones@mentercaerffili.org'

Menter Iaith Sir Caerffili

**Gweithdai creu
crempogau i blant**

Blynyddoedd 3,4,5 & 6

£5 y sesiwn 10:30-12pm

Chwefror 17eg ,
Canolfan White Rose, Tredegar
Newydd

Chwefror 18fed,
Ysgol Gyfun Cwm Rhymni,
Safle'r Gwyndy

Cyswllt: Ffion Rees

**URDD GOBAITH CYMRU
Eisteddfodau Rhanbarth Gwent**

Nos Wener 27ain o Chwefror 4:00
Beirniadu Cystadlaethau Celf a Chrefft
Neuadd y Methodistiaid, Y Coed Duon.

Dydd Sadwrn 28ain o Chwefror 9.00 – 2:00
Arddangosfa Celf a Chrefft
Neuadd y Methodistiaid, Y Coed Duon.

Dydd Sadwrn 7fed o Fawrth
Eisteddfod Gylch Llanofer, Ysgol Gyfun
Llanwern.

Dydd Sadwrn 7fed o Fawrth 8:00.
Eisteddfod Gylch Cwm Rhymni, Ysgol Gyfun
Cwm Rhymni.

Prynhawn Gwener 13eg o Fawrth 4:00
Rhanbarth Uwchradd, Ysgol Gyfun Cwm
Rhymni.

Nos Iau 19eg o Fawrth 4:00
Cerdd Dant, Offerynnol a Dawns Rhanbarthol
Ysgol Gyfun Cwm Rhymni. (Cynradd ac
Uwchradd)

Dydd Sadwrn 21ain o Fawrth 8:00 Eisteddfod
barth Cynradd.—Ysgol Gyfun Cwm Rhymni.

Merched y Wawr

**Noson yng Nghwmni'r Prifardd
Christine James**

Chwefror 25ain 7:30yh Bethel, Caerffili

Cyswllt: Marian Fairclough

Pwyllgor Nelson
Eisteddfod yr Urdd

BINGO

Ail nos Wener y mis
7:15
Neuadd Gymuned
Nelson
50c

Menter Iaith Sir Caerffili

Sadwrn Siarad

Y Memo, Trecelyn, 10-12pm Chwefror 28ain

Cyswllt: Ffion Rees

Côr Cwm Ni

YMARFER

Bob Nos Fawrth
6:30

Ysgol Trelyn

Eisteddfod 2015

CINIO MAWREDDOG

Castell Caerffili Nos Wener, 27ain o Chwefror

£35

pwyllgorapelcaerffili@hotmail.com

Adlonoiant gan Caryl Parry Jones,
Ieuan Rhys a'r Rhys Taylor Dixie Band
+ Ocsiwn

Manylion Cysylltu â'r uchod

Ffion Rees: ffionrees@mentercaerffili.org

01443820913

Bethan Jones: [bethan-](mailto:bethan-jones@mentercaerffili.org)

jones@mentercaerffili.org 01443 820913

Morgan Roberts: morgan@urdd.org

Marian Fairclough: faircloughme@aol.com
02920885151

Pwyllgor Cerdd Dant

RADIO FEYNMAN
Cyn Ddisgyblion Cwm Rhymni

Nos Wener, 13eg o Fawrth
Clwb Golff, Caerffili
7:30 – Canol Nos



Nia Parsons: 07817975799 Richard
Parsons: 07968045003 epost: niaparsons@hotmail.co.uk

£10 gan gynnwys bwffe

CALENDRAU 2015


Mae rhywfaint o stoc calendrau
Eisteddfod 2015 ar ôl. Dewch
prynwch un! Maent ar gael gan
Gwyneth Davies neu drwy Ysgol
Gyfun Cwm Rhymni £5 yr un

Eistedd ac yn yfed gwin
Ar y ffordd i lawr y
mynydd i Nelson dros y
mynydd o Senghenydd
Cerys Matthews



Colofn y Dysgwyr

Blwyddyn Newydd Dda i chi i gyd! Aeth tipyn o amser heibio ers y Nadolig, ond gobeithio i chi gael anrhegion hyfryd. Yn rhifyn mis Rhagfyr, roedd aelodau'r pwyllgor yn ysgrifennu at Sion Corn. Gofynnodd Iestyn, y dysgwr, am eiriadur newydd. Fe gafodd e'r geiriadur ond cafodd e lyfr arall hefyd, llyfr o Chwedlau Cwm Rhymni. Roedd Iestyn wrth ei fodd gyda'r llyfr ac roedd e eisïau gweld y mannau ble digwyddodd y storïau. Felly fe aeth e allan i brynu pâr o esgidiau cerdded da a dechrau mynd ar deithiau cerdded drwy'r cwm. Dyma un o'r storïau o lyfr Iestyn. Mae geirfa ar y gwaelod i roi help i chi ei ddeall.



Cefn Crwca

Un nos pan oedd yr awyr yn llawn o sêr, roedd dyn tlawd o'r enw Dafydd Grwca yn llusgo'i ffordd dros fynydd Cefn Brithdir i Fochriw.

Mae'r lleuad yn taflu cysgodion hynod weithiau. Mae'n rhoi ffurfiau gwahanol i bobl ond roedd cysgod Dafydd fel cysgod camel bob amser o achos ei gefn crwca.

Wrth i Dafydd druan ddringo'n araf dros y brynïau, clywodd sŵn y tylwyth teg yn chwarae. Roedden nhw mor hardd a dechreuodd Dafydd grïo am fod ei gorff e mor hyll.

Roedd y tylwyth teg yn gwybod pam fod Dafydd mor drist, ac fe chwifiodd un wialen wen a wnaeth i Dafydd gysgu yn y fan a'r lle. Pan ddeffrodd e roedd y sêr a'r lleuad yn gwenu am fod cysgod Dafydd nawr fel cysgod pobl eraill. Pan welodd Dafydd ei gysgod roedd e'n gwybod beth wnaeth y tylwyth teg ac roedd e mor llawen a'r gog.

tipyn o amser : quite a bit of time *anrhegion hyfryd* : lovely presents

geiriadur : dictionary

Chwedlau Cwm Rhymni : Folktales of the Rhymni Valley

gweld y mannau ble digwyddodd y storïau : to see the places where the stories happened

y lleuad : the moon

esgidiau cerdded : hiking boots

deffro:to wake up

gwenu :to smile

ar deithiau cerdded : on walking tours

geirfa : vocab

cefn crwca : hunchback

yr awyr : the sky

sêr : stars

llusgo'i ffordd : dragging his way

taflu cysgodion hynod : to cast strange shadows

mor trist : so sad

ffurfiau gwahanol : different shapes

dringo : to climb

y tylwyth teg : the fairies

mor hardd : so beautiful

ei gorff e : his body

mor hyll : so ugly

chwifio : to wave

(g)wialen wen : a white wand

yn y fan a'r lle : there and then

fel cysgod pobl eraill : like other people's shadow


mor llawen â'r gog : as happy as a lark (or cuckoo in Welsh!)

Posau'r Plant



Geiriau Croes

Allwch chi ffitio'r geiriau hyn i mewn i'r rhwyll?



Allwch chi ddod o hyd i NAW gwahaniaeth rhwng y ddau lun?



Mae'r atebion rywle yn y papur

glaw	oer
gwlyb	esgidiau
diferion	sgarff
dŵr	diflas
gwynt	gaeaf
ymbarel	cwmwl

W. Rhys Nicholas

Emynydd amlycaf Cymru yn chwarter olaf yr ugeinfed ganrif oedd y Parchedig W. Rhys Nicholas (1914–96). Yn enedigol o sir Benfro, bu'n weinidog gyda'r Annibynwyr yn y Bryn, Llanelli, Horeb a Bwlch-y-groes, Ceredigion, a Phorth-cawl. Roedd yn fardd ac yn llenor, yn ysgrifennydd i bwyllgor **Y Caniedydd** (1960), ac yn gyd-olygydd cylchgrawn **Y Genhinen** am flynyddoedd. Ond fe'i cofir yn bennaf am ei emynau, yn enwedig 'Tydi a wnaeth y wyrth, O! Grist, Fab Duw', a genir ar y dôn 'Pantfyfedwen' gan M. Eddie Evans.

Cyfrol deyrnged iddo yw **Y Cyfoeth Gorau**, a gyhoeddir gan Gymdeithas Emynau Cymru i nodi canmlwyddiant ei eni. Mae'n cynnwys teyrngedau ac atgofion gan nifer o'i gydnabod, ysgrifau am ei farddoniaeth a'i emynau, a detholiad o'i waith. Pris y gyfrol, a gyhoeddwyd erbyn Nadolig 2014, yw £6.95.

Y CYFOETH GORAU

Cyfrol deyrnged i
W. Rhys Nicholas
1914 – 1996



CYMCDEITHAS EMYNAU CYMRU

Llun y Mis

Artist y mis hwn yw Margaret Jones, nyrs wedi ymddeol sy'n byw yn Draethen.

Mae Margaret yn arbenigo mewn paentio lluniau mewn acrylig bras, yn enwedig blodau a thirluniau. Mae hi hefyd yn paentio'n fedrus gyda dyfrliwiau.

Canlyniad gwyliau blynyddol Grŵp Dydd Gwener i Stagbwll yw llun y mis. Pan nad yw hi'n paentio mae Margaret yn gweithio'n frwd yn yr ardd.

Mae wedi arddangos yn lleol ac mae'n un o'r aelodau a sefydlodd Grŵp Dydd Gwener.



Posau

p	g	w	r	t	a	i	t	h	e	b
o	l	i	a	t	i	s	w	e	l	
t	a	t	n	a	m	y	r	c	o	
y	s	e	r	dd	u	f	e	l	d	
n	w	a	i	w	a	rh	c	i	a	
e	e	y	a	n	i	y	ff	a	u	
m	ll	f	w	e	s	d	o	d	l	
o	t	ŷ	g	w	y	d	r	g	a	
t	w	p	a	i	ll	i	ch	n	p	

Mae beth mae Mam yn hoffi ei wneud yn yr ardd yn cuddio yn y llythrennau sbâr.

Allwch chi ddarganfod geiriau'r ardd yn y chwila'r?

berfa	rhaw
cryman	llysiau
blodau	tŷ gwydr
fforch	gwair
glaswellt	paill
gwrtiaith	palu
tail	tomen
dail	potyn
erw	



Ble yn y sir?



Llygaid pa arwres?

Atebion a'r dudalen 17